# RHAN 4.1

# RHEOLAU GWEITHDREFN

# (RHEOLAU SEFYDLOG)

## RHEOLAU GWEITHDREFN Y CYNGOR

**Diffiniadau Rhagarweiniol**


| | |
|---|---|
| **RHGC 1** | **Cyfarfod Blynyddol y Cyngor** |
| **RHGC 2** | **Cyfarfodydd Cyffredin** |
| **RHGC 3** | **Cyfarfodydd Arbennig** |
| **RHGC 4** | **Penodi Pwyllgorau ac Aelodau o Bwyllgorau a Threfniadau ar gyfer Cyfarfodydd** |
| **RHGC 5** | **Amser a Lleoliad y Cyfarfodydd** |
| **RHGC 6** | **Rhybudd am Gyfarfodydd a Gwŷs Iddynt** |
| **RHGC 7** | **Cadeirydd y Cyfarfod** |
| **RHGC 8** | **Cworwm** |
| **RHGC 9** | **Hyd y Cyfarfod** |
| **RHGC 10** | **Cwestiynau gan y Cyhoedd a Chyflwyno Deisebau** |
| **RHGC 11** | **Cwestiynau gan yr Aelodau** |
| **RHGC 12** | **Cynigion gyda Rhybudd** |
| **RHGC 13** | **Cynigion heb Rybudd** |
| **RHGC 14** | **Rheolau Dadl** |
| **RHGC 15** | **Penderfyniadau a Chynigion Blaenorol** |
| **RHGC 16** | **Pleidleisio** |
| **RHGC 17** | **Cofnodion** |
| **RHGC 18** | **Cofnod Presenoldeb** |
| **RHGC 19** | **Gwahardd y Cyhoedd** |
| **RHGC 20** | **Ymarweddiad Aelodau** |
| **RHGC 21** | **Aflonyddwch gan y Cyhoedd** |
| **RHGC 22** | **Ffilmio yn ystod Cyfarfodydd** |
| **RHGC 23** | **Atal a diwygio Rheolau Gweithdrefn y Cyngor** |
| **RHGC 24** | **Cymhwyso’r Rheolau i Bwyllgorau** |

## DIFFINIADAU RHAGARWEINIOL

(1) Yn y Rheolau Gweithdrefn hyn o eiddo'r Cyngor, oni bydd y cyd-destun yn mynnu'n wahanol, mae i’r termau canlynol yr ystyron a roddir iddynt yn y fan hon:

“Awdurdod” - Cyngor Sir Caerfyrddin gan weithredu trwy ba gyfrwng bynnag y gall yn gyfreithlon ei fabwysiadu;

"Sir" - Sir Gaerfyrddin;

“Prif Weithredwr” - y person a benodir gan yr awdurdod i’r swydd honno a fydd hefyd yn “bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod” o dan Adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;

“Prif Swyddog” - person a benodwyd i’r swydd honno gan yr Awdurdod;

“Pwyllgor” - pwyllgor o eiddo’r Awdurdod;

“Cyfarwyddwr” - person a benodwyd i’r swydd honno gan yr Awdurdod;

“Arweinydd y Cyngor” – yr Arweinydd – yr arweinydd gweithredol a etholir gan y Cyngor Sir ac fel y diffinnir yn adran 11 (3) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

“Dirprwy Arweinydd y Cyngor” – y Dirprwy Arweinydd – aelod a etholir i’r swydd honno gan y Cyngor Sir i ddirprwyo ar ran Arweinydd y Cyngor;

“Cabinet” - Gweithrediaeth y Cyngor fel y’i diffinnir yn adran 11 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

“Aelodau o’r Cabinet" – Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac unrhyw Gynghorydd a benodir gan Arweinydd y Cyngor yn unol ag adran 11 (3) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ac y bydd yr Arweinydd yn hysbysu'r Cyngor Sir yn ei gylch;

“Portffolio’r Cabinet” - maes o weithgarwch y Cyngor Sir y bydd Arweinydd y Cyngor yn ei neilltuo i Aelod o’r Cabinet, gan roi gwybod i'r Cyngor am hynny;

Mae “Cyfarfod Hybrid” yn golygu cyfuniad o bresenoldeb corfforol a rhithwir.

“y Cynghorydd/Cynghorwyr Lleol” fydd y Cynghorydd/Cynghorwyr ar gyfer unrhyw ardal/ardaloedd etholiadol y mae mater sydd dan sylw’r Cyngor yn berthnasol iddi/iddynt;

y “Swyddog Priodol” fydd y person a benodwyd i’r swydd honno gan y Cyngor Sir at ddibenion y cynllun hwn, neu, oni wnaed y cyfryw benodiad, Prif Weithredwr/ Pennaeth Gwasanaeth Taledig y Cyngor.

“Swyddog Statudol” fydd:

(a) Y Prif Weithredwr yn achos y modd y mae'r Cyngor yn cyd-drefnu bod y gwahanol swyddogaethau yn cael eu cyflawni, nifer y staff sydd eu hangen ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau hynny, trefniadaeth y staff hynny a phenodi a rheoli'r cyfryw staff yn briodol;

(b) Y Swyddog Monitro mewn perthynas ag unrhyw gynnig, penderfyniad neu hepgoriad sydd wedi achosi neu sy'n debygol o achosi torcyfraith neu dorri unrhyw gôd ymarfer statudol, neu gamweinyddu;

(c) Y Prif Swyddog Cyllid mewn perthynas â gweinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol (Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972, adran 151).

"Grŵp Mwyafrifol" - grŵp gwleidyddol y mae naill ai -
(a) mwy na hanner aelodau'r Cyngor yn perthyn iddo; neu

(b) union hanner aelodau'r Cyngor, gan gynnwys y Cadeirydd, yn perthyn iddo;

"Cyfarfod" - cyfarfod o'r Cyngor neu bwyllgor fel y bo'r achos a allai fod yn gorfforol, yn rhithwir, neu hybrid

"Aelod" - yng nghyswllt y Cyngor, Aelod o'r Cyngor; mewn perthynas ag unrhyw bwyllgor, person a benodwyd yn aelod o'r pwyllgor hwnnw, p'un a oes ganddo/ganddi hawl pleidleisio neu beidio;

"Nifer yr aelodau" - mewn perthynas â'r Cyngor, nifer y personau a all weithredu ar y pryd fel aelodau'r Cyngor, ac mewn perthynas â phwyllgor, nifer y personau a all weithredu ar y pryd fel aelodau â phleidlais o'r corff hwnnw;

"Person sy'n Cadeirio" - y person sydd â'r hawl neu sydd wedi'i benodi i gadeirio mewn unrhyw gyfarfod;

Cyfarfod Corfforol (aelodau'n mynychu'n gorfforol yn lleoliad y cyfarfod – fel arfer Siambr y Cyngor, ond nid o reidrwydd)

"Grŵp Gwleidyddol" - grŵp gwleidyddol fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau (Diwygio) 1991 ac 1993;

"Deddf 1972" - Deddf Llywodraeth Leol 1972;

"Deddf 1989" - Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

"Deddf 2000" - Deddf Llywodraeth Leol 2000;

"Cyfarfod rhithwir" yn golygu drwy Fideogynhadledd a/neu delegynhadledd

"Heb Sylw" - mewn perthynas â chynnig, eilio neu roi cynnig gerbron heb berson yn siarad ac eithrio ar gyfer dynodi geiriad y cynnig, y ffaith ei fod yn cael ei gynnig, ei eilio neu'i roi gerbron neu (yn achos y person sy'n cadeirio) effaith mabwysiadu'r cynnig;

"Diwrnod Gwaith" - diwrnod yn ystod yr wythnos pan fydd swyddfeydd yr Awdurdod fel arfer ar agor.

(2) Oni fydd y cyd-destun yn dangos yn wahanol, bydd yr unigol yn cynnwys y lluosog a'r lluosog yn cynnwys yr unigol.

(3) Bydd unrhyw gyfeiriad mewn unrhyw un o Reolau Gweithdrefn y Cyngor at baragraff wedi'i rifo, oni bydd y cyd-destun yn awgrymu'n wahanol, yn gyfeiriad at y paragraff â'r rhif hwnnw yn y Rheol Gweithdrefn honno o eiddo'r Cyngor.

## RHGC 1 - CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR

### 1.1 MEWN BLWYDDYN LLE CEIR ETHOLIAD CYFFREDIN I DDEWIS CYNGHORWYR

Mewn blwyddyn lle ceir etholiad cyffredin i ddewis Cynghorwyr, cynhelir y cyfarfod blynyddol o fewn 21 o ddiwrnodau yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorwyr sy'n ymadael. Mewn unrhyw flwyddyn arall, cynhelir y cyfarfod blynyddol ar ddyddiad ym mis Mai.

Bydd y busnes i'w gyflawni fel a ganlyn:

(a) derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant gan yr Aelodau;
(b) ethol rhywun i gadeirio'r cyfarfod os na fydd Cadeirydd y Cyngor yn bresennol;
(c) ethol Cadeirydd y Cyngor;
(d) ethol Is-Gadeirydd y Cyngor;
(e) cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf;
(f) derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd, a/neu'r Prif Weithredwr;
(g) ethol Arweinydd y Cyngor;
(h) cael clywed gan Arweinydd y Cyngor enwau'r Cynghorwyr y mae ef/hi wedi eu dewis i fod yn aelodau o'r Cabinet;
(i) penodi Pwyllgorau Craffu, y Pwyllgor Safonau a pha bwyllgorau eraill bynnag y mae'r Cyngor yn barnu sy'n briodol i ymdrin â materion nad ydynt yn rhai sy'n cael eu cadw i'r Cyngor nac yn swyddogaethau gweithredol (fel y cyflwynir hwy yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn);
(j) penderfynu ar faint ac amodau gorchwyl y pwyllgorau hynny;
(k) penderfynu ar nifer y seddau a neilltuir i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol;
(l) derbyn enwebiadau o Gynghorwyr i wasanaethu ar bob pwyllgor a chorff allanol; a
(m) penodi i'r pwyllgorau a'r cyrff allanol hynny ac eithrio lle bo'r Cyngor wedi dirprwyo'r gwaith o benodi i'r cyrff hynny i bwyllgor;
(n) ethol Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau'r Cyngor;
(o) cytuno ar ba rannau bynnag o'r cynllun dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn penderfynu y mae'n rhaid i'r Cyngor benderfynu arnynt (fel y cyflwynir yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn);
(p) ystyried unrhyw fusnes arall a gyflwynir yn yr hysbysiad sy'n galw'r cyfarfod

## 1.2 CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR MEWN BLWYDDYN LLE NA CHEIR ETHOLIAD I DDEWIS CYNGHORWYR

Mewn blwyddyn lle na cheir etholiad cyffredin i ddewis Cynghorwyr, cynhelir y cyfarfod blynyddol ym mis Mai ar ddyddiad i'w gytuno gan y Cyngor, a bydd y busnes i'w gyflawni fel a ganlyn:

(a) derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant gan yr Aelodau;
(b) ethol rhywun i gadeirio'r cyfarfod os na fydd Cadeirydd y Cyngor yn bresennol;
(c) ethol Cadeirydd y Cyngor;
(d) ethol Is-Gadeirydd y Cyngor;
(e)* derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd, yr Arweinydd a/neu'r Prif Weithredwr y mae'n rhaid iddynt fod yn ffeithiol ac anwleidyddol. Yr amser o nodir ar gyfer cyhoeddiadau gweithredol ac anweithredol yw dim mwy na 2 funud.
(f) ethol Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau'r Cyngor;
(g) penodi aelodau i lenwi swyddi gwag ar Bwyllgorau;
(h) cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf;
(i) ystyried unrhyw fusnes a gyflwynir yn yr hysbysiad sy'n galw'r cyfarfod yr oedd y Prif Weithredwr wedi cytuno, ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd, fod angen ei ystyried ar frys (h.y. ni ellir ei ohirio tan gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor);
(j) os penderfyna'r Cadeirydd y gellir ymdrin â mater brys nad oedd wedi ei nodi ar yr agenda a anfonwyd gyda'r wŷs yn galw'r aelodau i'r cyfarfod, ymdrinnir â'r eitem honno ar ddiwedd y materion eraill, yn amodol ar unrhyw gyfarwyddyd neu benderfyniad dan baragraff (k);
(k) gellir amrywio trefn y busnes ym mharagraffau (e)-(i) uchod drwy wahoddiad y Cadeirydd.

*1.2.(e) *Rhaid darparu'r testun ar gyfer cyhoeddiadau y gofynnir amdanynt o dan Gyhoeddiadau'r Cadeirydd ymlaen llaw i Gadeirydd y Cyngor, a bydd gan y Cadeirydd yr awdurdod i stopio'r siaradwr os yw'n gwyro oddi wrth yr testun a gyflwynwyd neu'n siarad am gyfnod hirach na'r terfyn amser)

## RHGC 2 - CYFARFOD CYFFREDIN

(1) Cynhelir cyfarfodydd cyffredin y Cyngor yn unol â’r dyddiadur o gyfarfodydd a luniwyd gan y Prif Weithredwr;

(2) Bydd y Prif Weithredwr yn trefnu’r eitemau ar agenda pob cyfarfod o’r Cyngor er mwyn rhoi blaenoriaeth i faterion lle mae gofyn gwneud penderfyniadau. Gall yr eitemau sydd i’w hystyried gynnwys:-

- (a) ethol aelod o’r Cyngor i lywyddu os nad yw’r Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd yn bresennol;
- (b) derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant gan yr aelodau;
- (c) *derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd, yr Arweinydd, aelodau’r Cabinet neu’r Prif Weithredwr y mae’n rhaid iddynt fod yn ffeithiol ac anwleidyddol. Yr amser o nodir ar gyfer cyhoeddiadau gweithredol ac anweithredol yw dim mwy na 2 funud.;
- (d) ddelio ag adroddiadau sy'n gofyn am benderfyniad;
- (e) ymdrin ag unrhyw fusnes sy’n weddill o gyfarfod diwethaf y Cyngor;
- (f) ethol Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau os bydd lle gwag yn codi yn ystod tymor y Cyngor;
- (g) ystyried argymhellion y Cabinet;
- (h) derbyn adroddiadau gan y Cabinet a derbyn cwestiynau ac atebion ar unrhyw rai o’r adroddiadau hynny;
- (i) derbyn adroddiadau am drefniadau ar y cyd â chyrff allanol a derbyn cwestiynau ac atebion yn eu cylch;
- (j) ystyried cynigion y mae rhybudd wedi’i roi yn eich cylch;
- (k) derbyn cwestiynau gan y cyhoedd;
- (l) derbyn deisebau;
- (m) derbyn cwestiynau gan aelodau
- (n) penodi pwyllgor yn deillio o eitem ar y wŷs ar gyfer y cyfarfod;
- (o) penodi aelodau i lenwi swyddi gwag ar bwyllgorau;

(3) Gellir amrywio trefn y busnes ym mharagraffau (a)-(n) uchod drwy wahoddiad y Cadeirydd;

(4) Os penderfyna’r Cadeirydd y gellir ymdrin â mater brys nad oedd wedi ei nodi ar yr agenda a anfonwyd gyda’r wŷs yn galw’r aelodau i’r cyfarfod, ymdrinnir â’r eitem honno ar ddiwedd y materion eraill, yn amodol ar unrhyw gyfarwyddyd neu benderfyniad dan baragraff (3).

(2 2 (c)* ) *Rhaid darparu'r testun ar gyfer cyhoeddiadau y gofynnir amdanynt o dan Gyhoeddiadau'r Cadeirydd ymlaen llaw i Gadeirydd y Cyngor, a bydd gan y Cadeirydd yr awdurdod i stopio'r siaradwr os yw'n gwyro oddi wrth yr testun a gyflwynwyd neu'n siarad am gyfnod hirach na'r terfyn amser)

## RHGC 3 - CYFARFODYDD ARBENNIG

Gall y rhai hynny a restrir isod ofyn i'r Prif Weithredwr alw cyfarfodydd o'r Cyngor yn ychwanegol at y cyfarfodydd arferol:

- y Cyngor drwy benderfyniad;
- Cadeirydd y Cyngor;
- y Swyddog Monitro; neu
- Pum aelod o'r Cyngor os ydynt wedi arwyddo cais a gyflwynwyd i gadeirydd y Cyngor a'i fod ef/hi wedi gwrthod galw cyfarfod neu wedi methu â galw cyfarfod o fewn saith niwrnod o gyflwyno'r cais.

Ni thrafodir unrhyw fater yn y cyfarfod arbennig heblaw'r mater a nodir yn yr hysbysiad sy'n cynnull y cyfarfod.

## RHGC 4 – PWYLLGORAU : PENODI, AELODAU, AELODAU DIRPRWYOL A THREFNIADAU AR GYFER CYFARFODYDD

(1) Bydd pob person a benodir i fod yn aelod â phleidlais o bwyllgor a phob person a benodir i gyflawni swyddogaethau eraill mewn perthynas â phwyllgor yn parhau yn y swydd honno tan y terfynir y penodiad gan yr awdurdod;

(2) Bydd y Cyngor yn penodi Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau'r Cyngor yn ei Gyfarfod Blynyddol neu mewn cyfarfod cyffredin o'r Cyngor os bydd lle gwag yn codi yn ystod tymor y Cyngor;

Dylid anfon enwebiadau ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau yn ysgrifenedig neu drwy bost electronig at y Prif Weithredwr (at sylw Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd) erbyn canol dydd 7 niwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf gan roi manylion y cynigydd a'r eilydd ar gyfer pob enwebiad. Yna bydd y Cyngor yn ystyried ac yn pleidleisio ar yr enwebiadau a ddaeth i law yn unol â RhGC 17.6;

(3) Os na fydd y Cadeirydd yn bresennol mewn cyfarfod o bwyllgor, cadeirir y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd;

(4) Os bydd y personau a benodir o dan baragraff (2) o'r Rheol Gweithdrefn hon yn absennol, bydd cyfarfod o'r pwyllgor yn penodi person, wedi'i ddewis o blith yr aelodau â phleidlais sy'n bresennol, i gadeirio'r cyfarfod. Bydd y cynnig, ac unrhyw welliannau i'r cynnig, yn cael eu rhoi gerbron y cyfarfod yn unol â Rheol Gweithdrefn 17(6) (pleidleisio ar benodi neu ethol aelodau);

(5) Gall aelod o'r Cyngor nad oes hawl ganddo/ganddi fel arall i fynychu cyfarfod o bwyllgor wneud hynny, ond yn y cyfryw gyfarfod ni fydd hawl ganddo ef/hi bleidleisio ac fe all siarad yn unig**:–**

(a) yn ystod yr adeg y caiff unrhyw gynnig y mae rhybudd yn unol â Rheol Gweithdrefn 12 (cynigion ar rybudd) wedi'i roi y mae ef/hi wedi'i gynnig neu ei eilio mewn cyfarfod o'r Cyngor ac sydd wedi'i gyfeirio i'r pwyllgor hwnnw neu yr ystyrir ei fod wedi'i gyfeirio i'r pwyllgor hwnnw neu'r cyfarfod hwnnw; neu
(b) gyda chytundeb y sawl sy'n llywyddu'r cyfarfod.

(6) Gall Cadeirydd ac Arweinydd y Cyngor fynychu a siarad mewn cyfarfod o bwyllgor nad ydynt yn un o'i aelodau sydd â phleidlais.

(7) Ar yr amod bod digon o fusnes i'w drafod, cynullir cyfarfodydd cyffredin y pwyllgorau yn unol â'r dyddiadur o gyfarfodydd a luniwyd gan y Prif Weithredwr.

(8) Ni ellir cynnull cyfarfod arbennig o bwyllgor ond wedi derbyn cytundeb gan y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd perthnasol.

(9) Rhaid i aelodaeth pob pwyllgor gael ei hadolygu'n gyffredinol gan y cyngor yn ei gyfarfod blynyddol, a hefyd pan fo newidiadau'n digwydd i gyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor.

Rhaid darparu hyfforddiant priodol ar gyfer y pwyllgorau hynny. Yn achos y Pwyllgor Trwyddedu a Chynllunio mae rhagofyniad bod yr aelodau wedi mynychu hyfforddiant priodol cyn dod i'w cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor..

(10) Lle bydd aelod cyffredin o bwyllgor yn absennol ar gyfer cyfarfod cyfan, bydd caniatâd i grŵp gwleidyddol anfon dirprwy o blith ei aelodau nad ydynt eisoes yn aelodau o'r Pwyllgor penodol hwnnw, ac eithrio yn achos y Pwyllgor Cynllunio, y Pwyllgor Trwyddedu a'r Pwyllgor Apêl, lle na chaniateir dirprwyon.

Gall unrhyw aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu, fodd bynnag, weithredu fel aelod dirprwyol ar gyfer aelod o un o'r ddau is-bwyllgor sydd gan y Pwyllgor Trwyddedu, y cyfeirir atynt yn Rhan 3 Tabl 3 o'r Cyfansoddiad hwn.

(11) Ni chaiff aelodau o'r Cabinet fod yn ddirprwyon i aelodau o'r Pwyllgorau Craffu.

(12) Gall dirprwyon fynychu cyfarfodydd yn rhinwedd y swydd honno dim ond:-

(a) i gymryd lle'r aelod cyffredin y maent yn dirprwyo ar ei ran;
(b) wedi i'r aelod sy'n absennol neu arweinydd y grŵp gwleidyddol hysbysu'r Prif Weithredwr neu ei g/chynrychiolydd cyn i'r cyfarfod ddechrau ynghylch y bwriad i anfon dirprwy;

(13) Bydd gan aelodau sy'n ddirprwyon yr holl bwerau a'r dyletswyddau sydd gan aelod cyffredin o'r pwyllgor ond ni fedrant ymarfer unrhyw bŵer neu ddyletswydd arbennig y gellir eu hymarfer gan y person y maent yn ei ddirprwyo e.e. Cadeirio'r cyfarfod.

## RHGC 5 - AMSER A LLE'R CYFARFODYDD

Penderfynir ar amser a lleoliad cyfarfodydd (boed yn gorfforol, rhithwir neu hybrid) gan y Prif Weithredwr a nodir hynny yn y wŷs.

## RHGC 6 - RHYBUDD AM GYFARFODYDD A GWŶS IDDYNT

Bydd y Prif Weithredwr yn rhoi rhybudd i'r cyhoedd am amser a lle unrhyw gyfarfod yn unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth. O leiaf dri diwrnod clir cyn cyfarfod, bydd y Prif Weithredwr yn cyhoeddi gwŷs ac yn ei e-bostio at bob aelod o'r Cyngor. Bydd y wŷs yn rhoi dyddiad, amser a lle pob cyfarfod ac yn nodi'r busnes i'w gyflawni, ac amgaeir pa adroddiadau bynnag sydd ar gael yr un pryd yn ogystal.

## RHGC 7 - CADEIRYDD Y CYFARFOD

Gall y sawl sy'n llywyddu'r cyfarfod ymarfer unrhyw bŵer neu ddyletswydd sy'n perthyn i'r Cadeirydd. Lle bo'r rheolau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd pwyllgorau, mae cyfeiriadau at y Cadeirydd hefyd yn cynnwys Cadeirydd pwyllgor.

## RHGC 8 - CWORWM

(a) Cworwm cyfarfod o'r Cyngor a'i holl bwyllgorau (ac eithrio'r Pwyllgor Cynllunio) fydd traean cyfanswm yr aelodau wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan nesaf i fyny gyda lleiafrif o dri.

(b) Cworwm cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio fydd hanner cyfanswm aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan nesaf i fyny.

(c) Os yw'r Cadeirydd yn ystod unrhyw gyfarfod yn cyfrif nifer yr aelodau sy'n bresennol ac yn datgan nad oes cworwm yn bresennol, yna bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio ar unwaith. Ystyrir y trafodion sy'n weddill ar adeg a dyddiad a bennir gan y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd. Os nad yw ef/hi yn pennu dyddiad, ystyrir y materion sy'n weddill yn y cyfarfod cyffredin nesaf.

(d) Cworwm y Cabinet fydd traean cyfanswm aelodau'r Cabinet wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan nesaf i fyny.

## RHGC 9 - HYD Y CYFARFOD

### 9.1 <u>HYD Y CYFARFOD</u>

Os nad yw gwaith y cyfarfod wedi ei gwblhau o fewn tair awr o'r dechrau, bydd y Cadeirydd yn tynnu sylw at y ffaith yma a rhaid i'r aelod sy'n siarad eistedd i lawr ar unwaith. Bydd y Cadeirydd yn galw am y bleidlais ar unwaith ar yr eitem sy'n cael ei thrafod. Cymerir y bleidlais wedyn yn y modd arferol heb unrhyw drafodaeth bellach. (Gall y Cyngor neu'r Pwyllgor barhau â'r trafodion sy'n weddill cyhyd ag y cytunir ar benderfyniad i atal Rheolau Gweithdrefn y Cyngor [RhGC 23.1]).

**9.2 <u>CYNIGION AC ARGYMHELLION NA CHAWSANT EU TRAFOD</u>**

Os oes cynigion neu argymhellion eraill ar yr agenda na chawsant eu trafod yr adeg hon, byddant yn cael eu cynnig a'u heilio yn ffurfiol (ynghyd ag unrhyw welliannau) a chymerir y bleidlais yn y modd arferol. Ni chaniateir unrhyw areithiau ar yr eitemau hyn.

**9.3 <u>COFNODI PLEIDLEISIAU (mewn cyfarfod o'r Cyngor)</u>**

Os gelwir am bleidlais a gofnodwyd yn ystod y broses hon fe'i cymerir ar unwaith.

**9.4 <u>CYNIGION Y GELLIR EU RHOI GERBRON</u>**

Yn ystod y broses a gyflwynir yn Rheolau 9.1 - 9.3 uchod, yr unig gynigion eraill y gellir eu rhoi gerbron yw fod mater yn cael ei dynnu'n ôl neu fod mater yn cael ei ddirprwyo neu ei gyfeirio at gorff neu unigolyn priodol am benderfyniad neu adroddiad.

**9.5 <u>DIRWYN Y CYFARFOD I BEN</u>**

Pan fo'r holl gynigion ac argymhellion wedi derbyn sylw, bydd y Cadeirydd yn datgan bod y cyfarfod wedi dod i ben.

## RHGC 10 – CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD A CHYFLWYNO DEISEBAU

## <u>RHAN A – CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD YN Y CYNGOR - CYFFREDINOL</u>

**[Bydd RHGC 10 RHAN A yn berthnasol i gyfarfodydd y Cabinet.**
**O ran Cwestiynau yn y Pwyllgorau Craffu gweler Rheolau Gweithdrefn Craffu Rhan 4.5 o'r Cyfansoddiad]**

**10.1 <u>AELODAU O'R CYHOEDD</u>**

Gall aelodau o'r cyhoedd, ar yr amod eu bod yn byw yn y Sir, yn berchen ar fusnes sydd wedi ei leoli yn y Sir neu'n gweithio yn y Sir, ofyn cwestiynau i Aelodau o'r Cabinet mewn cyfarfodydd cyffredin o'r Cyngor Sir.

**10.2 <u>TREFN CWESTIYNAU</u>**

Gofynnir cwestiynau yn y drefn y derbyniwyd rhybudd amdanynt, ond gall y Cadeirydd grwpio cwestiynau tebyg gyda'i gilydd.

**10.3 RHYBUDD O GWESTIYNAU A'R CYNNWYS**

Ni ellir gofyn cwestiwn oni roddwyd rhybudd drwy ei gyflwyno yn ysgrifenedig neu drwy bost electronig i'r Prif Weithredwr (e-bost prifweithredwr@sirgar.gov.uk) erbyn 10 a.m. 7 diwrnod gwaith clir fan bellaf cyn y cyfarfod (h.y. nid yw diwrnod clir yn cynnwys y diwrnod dderbyniwyd y cwestiwn na diwrnod y cyfarfod). Rhaid i bob cwestiwn nodi enw a chyfeiriad yr holwr a rhaid iddo enwi'r aelod o'r Cyngor y gofynnir y cwestiwn iddo.

Rhaid i bob cwestiwn fod yn gryno er mae hawl rhoi cyflwyniad byr heb fod yn fwy na 40 gair i osod y cwestiwn yn ei gyd-destun. Rhaid rhoi unrhyw gyflwyniad o'r fath o fewn yr amser a neilltuwyd ar gyfer gofyn cwestiynau.

**10.4 NIFER Y CWESTIYNAU**

Fel arfer, mewn unrhyw un cyfarfod ni all un person gyflwyno mwy nag un cwestiwn ac ni ellir gofyn mwy nag un cwestiwn o'r fath ar ran un corff. Bydd cwestiynau ar yr un pwnc neu bwnc tebyg yn gyfyngedig i 3 fesul cyfarfod a bydd y 3 chwestiwn ar y pwnc hwnnw yn cael eu dyrannu ar sail y cyntaf a dderbyniwyd. Os bydd mwy na chyfanswm o 3 chwestiwn yn cael eu cyflwyno ni fydd y cwestiynau ychwanegol yn cael eu hystyried ac ni fyddant yn cael eu trosglwyddo i'r cyfarfod nesaf.

**10.5 CWMPAS Y CWESTIYNAU**

Gall y Prif Weithredwr wrthod cwestiwn:
(a) os nad yw yn fater y mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb amdano neu os nad yw'n effeithio ar y Sir;
(b) os yw yn enllibus, yn gwamalu neu'n sarhaus;
(c) os yw'n sylweddol debyg i gwestiwn a ofynnwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor Sir yn ystod y chwe mis diwethaf; neu
(d) os yw'n galw am ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig.

**10.6 COFNOD O GWESTIYNAU**

Bydd y Prif Weithredwr yn cofnodi pob cwestiwn mewn llyfr sy'n agored i'w archwilio gan y cyhoedd a bydd yn anfon copi o'r cwestiwn at yr aelod y cyflwynir ef iddo ar unwaith. Bydd cwestiynau a wrthodir yn cynnwys rhesymau am eu gwrthod. Dosberthir copïau o'r holl gwestiynau i'r holl aelodau a byddant ar gael i'r cyhoedd sy'n mynychu'r cyfarfod.

**10.7 GOFYN Y CWESTIWN YN Y CYFARFOD**

Bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr holwr i ofyn y cwestiwn i'r aelod a enwir yn y rhybudd. Yr amser a neilltuwyd ar gyfer holi'r cwestiwn yw 1 munud 30 eiliad a dim mwy. Os nad yw holwr sydd wedi cyflwyno cwestiwn ysgrifenedig yn gallu bod yn bresennol, gall ofyn i'r Cadeirydd gyflwyno'r cwestiwn ar ei ran. Gall y Cadeirydd ofyn y cwestiwn ar ran yr holwr, nodi y rhoddir ateb ysgrifenedig, neu benderfynu yn absenoldeb yr holwr, na fydd y cwestiwn yn cael ei drafod.

Yr amser a neilltuir ar gyfer ymateb i'r cwestiwn yw 2 funud 30 eiliad a dim mwy.

**10.8 CWESTIWN ATODOL**

Gall holwr sydd wedi cyflwyno cwestiwn yn bersonol ofyn un cwestiwn atodol yn unig heb rybudd i'r aelod sydd wedi ateb y cwestiwn gwreiddiol ganddo ef neu ganddi hi. Dylai unrhyw gwestiwn atodol fod ar ffurf un cwestiwn sengl yn unig ac nid cwestiwn sydd wedi'i rannu'n sawl rhan. Rhaid i gwestiwn atodol godi'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ateb. Yr amser a neilltuir ar gyfer y Cwestiwn Atodol yw 30 eiliad a dim mwy. Gall y Cadeirydd wrthod cwestiwn atodol am unrhyw rai o'r rhesymau yn Rheol 10.5 uchod. Gellir rhoi ateb ysgrifenedig os nad yw'r wybodaeth sy'n berthnasol i'r ateb ar gael ar y pryd.

Yr amser a neilltuir ar gyfer yr ymateb i'r Cwestiwn Atodol yw 1 munud a dim mwy. Gellir darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol yn ysgrifenedig i'r holwr ar ôl y cyfarfod.

Gall y Cadeirydd wrthod cwestiwn atodol ar unrhyw un o'r seiliau yn Rheol 10.5 uchod. Gellir rhoi ateb ysgrifenedig os nad yw'r wybodaeth sy'n berthnasol i'r ymateb ar gael.

**10.9 ATEBION YSGRIFENEDIG**

Ymdrinnir ag unrhyw gwestiwn na ellir rhoi sylw iddo yn ystod amser cwestiynau cyhoeddus, naill ai oherwydd diffyg amser neu oherwydd nad yw'r aelod yr oedd i'w gyflwyno iddo/iddi yn bresennol, drwy ateb ysgrifenedig.

**10.10 CYFEIRIO CWESTIWN AT Y CABINET NEU BWYLLGOR**

Oni bai fod y Cadeirydd yn penderfynu fel arall, ni thrafodir unrhyw gwestiwn, ond gall unrhyw aelod gynnig y gallai mater a godwyd gan gwestiwn gael ei gyfeirio at y Cabinet neu'r pwyllgor priodol. Cyn gynted ag y bo wedi ei eilio, pleidleisir ar gynnig o'r fath heb drafodaeth.

## RHAN B – CYFLWYNO DEISEBAU

**10.11** Gall unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn Sir Gaerfyrddin drefnu neu lofnodi deiseb copi caled neu ddeiseb electronig (e-ddeiseb), gan gynnwys y rhai dan 18 oed. Mae'n rhaid i ddeisebau a gyflwynir i gyfarfod y Pwyllgor Craffu gynnwys 50 llofnod etholwr cofrestredig ar gyfer copïau papur a 300 o lofnodion etholwr cofrestredig ar gyfer e-ddeisebau. Mae'n rhaid i bob deiseb nodi enw, cyfeiriad a chod post trefnydd y ddeiseb. Yn yr amgylchiadau hyn mae'n rhaid i drefnydd y ddeiseb un ai bod yn etholwr llywodraeth lleol o'r sir neu'n Gynghorydd ar Gyngor Sir Caerfyrddin

**10.12 DEISEBAU PAPUR**
Mae'n rhaid i ddeisebau papur ar gyfer cyfarfod Craffu gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr erbyn 10:00am 7 diwrnod gwaith clir fan bellaf (nid yw

diwrnodau clir yn cynnwys y diwrnod y derbynnir y ddeiseb na diwrnod y cyfarfod) cyn diwrnod y cyfarfod y bwriedir ei chyflwyno ynddo.

**10.13 E-DDEISEBAU**
Ar gyfer e-ddeisebau, pan fydd 300 o lofnodion etholwyr cofrestredig wedi dod i law, bydd y ddeiseb hon yn cael ei chynnwys yn awtomatig ar agenda cyfarfod priodol nesaf Pwyllgor Craffu.

**10.14** Rhaid i'r Prif Weithredwr nodi bod cais i gyflwyno deiseb wedi dod i law yn agenda cyfarfod Pwyllgor Craffu perthnasol, a hynny yn y drefn y derbyniodd ef/hi y ceisiadau hynny.

**10.15** Bydd yr holl ddeisebau sy'n dod i law ac sydd wedi cyrraedd trothwy RHGC 10.11 yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu perthnasol a'u hystyried dan Reolau Gweithdrefn Craffu (Rhan 4.5 o'r Cyfansoddiad) ac yn unol â Chynllun Deisebau'r Awdurdod.

## RHGC 11 – CWESTIYNAU GAN YR AELODAU

### 11.1 AR ADRODDIADAU Y CABINET NEU BWYLLGORAU

Gall aelod o'r Cyngor ofyn

a) unrhyw gwestiwn yn ddirybudd i'r Arweinydd neu Aelod Cabinet perthnasol, ar eitem o adroddiad y Cabinet pan fo'r eitem honno yn cael ei derbyn neu o dan ystyriaeth gan y Cyngor.
b) unrhyw gwestiwn yn ddirybudd i Gadeirydd Pwyllgor, ar eitem o adroddiad pwyllgor pan fo'r eitem honno yn cael ei derbyn neu o dan ystyriaeth gan y Cyngor.

### 11.2 CWESTIYNAU Y RHODDIR RHYBUDD YN EU CYLCH YN Y CYNGOR LLAWN

Yn ddarostyngedig i Reol 11.4, gall aelod o'r Cyngor ofyn cwestiwn:
(a) i Gadeirydd y Cyngor;
(b) i aelod o'r Cabinet; neu
(c) i Gadeirydd unrhyw bwyllgor;
(d) am unrhyw fater y mae gan y Cyngor bwerau neu ddyletswyddau yn ei gylch neu sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod, neu ran o'r ardal honno, neu ar drigolion yr ardal honno, neu rai o'r trigolion hynny.

### 11.3 CWESTIYNAU Y RHODDIR RHYBUDD YN EU CYLCH MEWN PWYLLGORAU

Yn ddarostyngedig i Reol 11.4, gall aelod o bwyllgor ofyn cwestiwn i'r Cadeirydd ar unrhyw fater y mae gan y Cyngor bwerau neu ddyletswyddau mewn perthynas ag ef neu sy'n effeithio ar ardal yr Awdurdod, neu ran o'r ardal honno, neu ar drigolion yr ardal honno, neu rai o'r trigolion hynny, ac sy'n dod o fewn cylch gwaith y pwyllgor hwnnw.

**11.4 RHYBUDD O GWESTIYNAU**

Ni all aelod ofyn cwestiwn o dan Reol 11.2 neu 11.3 oni bai eu bod naill ai:
(a) wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig ynghylch y cwestiwn i'r Prif Weithredwr erbyn 10 a.m. 7 diwrnod gwaith clir fan bellaf (h.y. nid yw diwrnod clir yn cynnwys y diwrnod dderbyniwyd y cwestiwn na diwrnod y cyfarfod) cyn diwrnod y cyfarfod; neu
(b) bod y cwestiwn yn ymwneud â materion brys, fod ganddynt ganiatâd y person y cyflwynir y cwestiwn iddo a bod cynnwys y cwestiwn yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr erbyn 09.00 y bore ar ddiwrnod y cyfarfod.

**11.5 TREFN CWESTIYNAU**

Bydd cwestiynau y rhoddwyd rhybudd yn eu cylch o dan reol 11.2 neu 11.3 yn cael eu rhestru ar yr agenda yn y drefn y derbyniwyd nhw gan y Prif Weithredwr.

**11.6 CYNNWYS CWESTIYNAU**

Rhaid i'r cwestiynau o dan reol 11.2 neu 11.3:

a. fod yn gryno; mae hawl rhoi cyflwyniad byr heb fod yn fwy na 40 gair i osod y cwestiwn yn ei gyd-destun ar yr amod ei fod yn cael ei ofyn o fewn yr amser a neilltuwyd ar gyfer gofyn cwestiynau.

b. fod ar ffurf cwestiwn yn hytrach na datganiad; heb gynnwys mynegiant barn a'i fod yn berthnasol i'r cwestiwn ffeithiol

c. yn ymwneud â materion y mae gan y Cyngor bwerau neu ddyletswyddau yn eu cylch neu sy'n effeithio ar ardal yr Awdurdod, neu ran o'r ardal honno, neu ar drigolion yr ardal honno, neu rai o'r trigolion hynny. Rhaid iddynt hefyd ymwneud â materion lle mae polisi gan y Cyngor yn eu cylch neu lle gall y Cyngor benderfynu ar bolisi yn y dyfodol.

Gallai'r Prif Weithredwr wrthod cwestiwn os yw'n ymwneud â'r canlynol:
- yn debyg iawn i gwestiwn a ofynnwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor yn ystod y chwe mis diwethaf; neu
- yn fater ynghylch ward leol neu'n fater plwyfol y byddai fel arfer wedi cael ei drin naill ai drwy'r system Ymholiadau'r Cynghorwyr neu drwy'r broses holi aelodau yn ystod cyfarfodydd y Cabinet/Craffu neu ohebiaeth swyddogion.

**11.7 GOFYN Y CWESTIWN A'R YMATEB**

Yr amser a neilltuir ar gyfer y cwestiwn yw dim mwy na 1 munud a 30 eiliad. Yr amser a neilltuir ar gyfer ymateb i'r cwestiwn yw dim mwy na 2 funud a 30 eiliad.

Gall ateb fod ar ffurf:
(a) ateb llafar uniongyrchol;
(b) ateb ysgrifenedig;
(c) os yw'r wybodaeth y dymunir ei chael yn un o gyhoeddiadau'r Cyngor neu waith arall wedi ei gyhoeddi, cyfeiriad at y cyhoeddiad hwnnw;

**11.8 CWESTIWN ATODOL**

Gall aelod sy'n gofyn cwestiwn o dan Reol 11.2 neu 11.3 ofyn un cwestiwn atodol heb rybudd i'r aelod y gofynnwyd y cwestiwn cyntaf iddo/iddi. Rhaid i'r cwestiwn atodol godi'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ateb. Yr amser a neilltuir ar gyfer y Cwestiwn Atodol yw 30 eiliad a dim mwy. Dylai unrhyw gwestiwn atodol fod ar ffurf un cwestiwn sengl yn unig ac nid cwestiwn sydd wedi'i rannu'n sawl rhan.

Yr amser a neilltuir ar gyfer ymateb i'r Cwestiwn Atodol yw 1 munud a dim mwy. Gellir darparu gwybodaeth ychwanegol yn ysgrifenedig i'r holwr ar ôl y cyfarfod.

## RHGC 12 – CYNIGION GYDA RHYBUDD

### 12.1 RHYBUDD

Heblaw cynigion y gellir eu rhoi gerbron yn ddirybudd o dan RhGC 13 ac mewn achosion brys, rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig ynghylch pob cynnig i'r Prif Weithredwr naill ai ar ffurf copi caled (i'w lofnodi gan o leiaf ddau aelod) neu drwy e-bost (rhaid anfon copi at bob llofnodwr) erbyn 10 a.m. 7 diwrnod gwaith clir fan bellaf (nid yw diwrnodau clir yn cynnwys y diwrnod y derbynnir y ddeiseb na diwrnod y cyfarfod) cyn diwrnod y cyfarfod y bwriedir ei chyflwyno ynddo. Bydd y cynigion a dderbynnir yn cael eu cofnodi mewn llyfr sy'n agored i'w archwilio gan y cyhoedd.

### 12.2 CYNIGION A NODIR YN YR AGENDA

Bydd y cynigion y rhoddwyd rhybudd yn eu cylch yn cael eu rhestru yn yr agenda yn y drefn y derbyniwyd nhw gan y Prif Weithredwr.

### 12.3 CWMPAS

Rhaid i'r cynigion ymwneud â materion y mae gan y Cyngor

a. gyfrifoldeb cyffredinol yn eu cylch neu sy'n galw ar lywodraeth ganolog/Senedd neu gorff cyfrifol arall i gymryd camau penodol mewn perthynas â phwerau neu gyfrifoldebau'r Cyngor, neu ymatal rhag hynny; a

b. sy'n effeithio'n sylweddol ar lesiant ardal weinyddol gyfan Sir Gaerfyrddin a/neu'r mwyafrif o'i dinasyddion (neu o leiaf grŵp sylweddol ohonynt). Ni fydd materion Ward unigol yn cael eu derbyn a byddant yn cael eu cyfeirio drwy'r system weinyddol briodol.

### 12.4 UN CYNNIG FESUL AELOD

Ni chaiff unrhyw aelod roi rhybudd ynghylch mwy nag un cynnig ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r Cyngor heblaw â chaniatâd y Cadeirydd

### 12.5 NEWID CYNNIG

(a) Rhaid i welliannau ysgrifenedig Rhybudd Gynigion ddod i law'r Prif Weithredwr 24 awr cyn y cyfarfod perthnasol o'r Cyngor ac wedi'u llofnodi gan

o leiaf ddau aelod, ac fe'u dosberthir i'r aelodau ar ffurf electronig cyn gynted ag y gellir ar ôl iddynt ddod i law;

(b) Dim ond newidiadau y gellid eu gwneud fel gwelliant y gellir eu gwneud h.y.

(i) i gyfeirio’r mater at gorff neu unigolyn priodol i’w ystyried neu ei ailystyried;
(ii) i ddileu geiriau;
(iii) i ddileu geiriau a chynnwys neu ychwanegu rhai eraill; neu
(iv) i gynnwys neu ychwanegu geiriau ar yr amod na fydd yr effaith yn

(v) ar yr amod na fydd effaith (ii) i (iv) yn negyddu cynnig

## RHGC 13 – CYNIGION HEB RYBUDD

Gall y cynigion canlynol gael eu rhoi gerbron heb rybudd:-

(a) penodi Cadeirydd y cyfarfod y mae’r cynnig yn mynd i gael ei roi gerbron ynddo;
(b) mewn perthynas â chywirdeb y cofnodion;
(c) newid trefn busnes yn yr agenda;
(d) cyfeirio rhywbeth at gorff neu unigolyn priodol;
(e) penodi pwyllgor neu aelod yn deillio o eitem ar y wŷs ar gyfer y cyfarfod;
(f) derbyn adroddiadau neu fabwysiadu argymhellion pwyllgorau neu swyddogion ac unrhyw benderfyniadau yn dilyn ohonynt;
(g) tynnu cynnig yn ôl;
(h) diwygio cynnig;
(i) symud ymlaen i’r busnes nesaf;
(j) bod y cwestiwn yn cael ei gyflwyno yn awr;
(k) gohirio dadl;
(l) gohirio cyfarfod;
(m) bod y cyfarfod yn parhau y tu hwnt i 3 awr o hyd;
(n) atal rheol gweithdrefn arbennig y Cyngor;
(o) gwahardd y cyhoedd a’r wasg yn unol â’r Rheolau Mynediad at Wybodaeth;
(p) peidio â gwrando mwy ar aelod a enwir o dan Reol 20.3 neu ei wahardd o’r cyfarfod o dan Reol 20.5; a
(q) rhoi caniatâd y Cyngor lle mae angen ei ganiatâd o dan y Cyfansoddiad hwn.

## RHGC 14 – RHEOLAU DADL

(a) Bydd statws a dilysrwydd cyfartal i'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn holl weithrediadau'r Cyngor, y Cabinet a chyfarfodydd Pwyllgorau;
(b) Bydd gan bawb yr hawl i siarad Cymraeg neu Saesneg wrth annerch y Cyngor;
(c) Bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob cyfarfod y cyfeirir ato ym mharagraff (a) uchod.
(d) Os yw Cadeirydd o'r farn bod cynnig wedi'i drafod yn ddigonol bydd ef/hi yn dod â'r ddadl i ben a bydd yn rhoi hawl i'r cynigydd gwreiddiol ymateb cyn cyflwyno'r cynnig/gwelliant i'r bleidlais.

### 14.1 DIM AREITHIAU NES BO CYNNIG WEDI EI EILIO

Ni ellir gwneud unrhyw areithiau wedi i'r cynigydd roi cynnig gerbron ac egluro ei bwrpas, nes bo'r cynnig wedi ei eilio.

### 14.2 HAWL I OFYN AM Y CYNNIG YN YSGRIFENEDIG

Oni bai fod rhybudd o'r cynnig wedi ei roi yn barod, gall y Cadeirydd ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei ysgrifennu a'i drosglwyddo iddo ef/iddi hi cyn iddo gael ei drafod.

### 14.3 ARAITH YR EILYDD

Wrth eilio cynnig neu welliant, gall aelod gadw ei araith tan yn ddiweddarach yn y ddadl.

### 14.4 CYNNWYS A HYD AREITHIAU

Rhaid i araith Cynghorydd ymwneud â'r mater sy'n cael ei drafod yn unig neu ag eglurhad personol neu bwynt o drefn. Ni all unrhyw araith, cyhoeddiad, neu achos o gyflwyno adroddiad/cymeradwyo mabwysiadu argymhelliad gan y Cabinet/Cyngor fod yn hwy na 4 munud heb ganiatâd y Cadeirydd.

### 14.5 PRYD Y GALL AELOD SIARAD ETO

Ni all aelod sydd wedi siarad ar gynnig siarad eto tra bo'n destun trafodaeth, ac eithrio:-
(a) i siarad unwaith ar welliant a gynigir gan aelod arall;
(b) i gynnig gwelliant pellach os yw'r cynnig wedi ei ddiwygio ers iddo ef/iddi hi siarad ddiwethaf;
(c) os oedd ei (h)araith gyntaf ef/hi ar welliant a gynigiwyd gan aelod arall, i siarad ar y prif bwnc (p'un a gafodd y gwelliant y siaradodd ef/hi amdano ei dderbyn neu beidio);
(d) i ymarfer hawl i ymateb (RhGC 14.9 yn berthnasol);
(e) ar bwynt o drefn; ac (mae Rheol 14.12 o Weithdrefn y Cyngor yn berthnasol)
Rhaid i'r aelod nodi'r rheol neu'r gyfraith a'r modd mae wedi cael ei thorri

(f) i roi esboniad personol. (mae Rheol 14.13 o Weithdrefn y Cyngor yn berthnasol). Ni all aelod sydd heb siarad ar y mater fel rhan o'r drafodaeth roi esboniad personol).

**14.6 GWELLIANNAU I GYNIGION**

(a) Rhaid i welliant i gynnig fod yn berthnasol i'r cynnig ac fe'i gwneir naill ai:-

- (i) i gyfeirio'r mater at gorff neu unigolyn priodol i'w ystyried neu ei ailystyried;
- (ii) i ddileu geiriau;
- (iii) i ddileu geiriau a chynnwys neu ychwanegu rhai eraill; neu
- (iv) i gynnwys neu ychwanegu geiriau
- (v) ar yr amod na fydd effaith (ii) hyd (iv) yn negyddu'r cynnig.

(b) Dim ond un gwelliant y gellir ei roi gerbron a'i drafod ar unrhyw un adeg. Ni ellir cynnig unrhyw welliant pellach hyd nes bo'r gwelliant o dan drafodaeth wedi ei waredu, drwy bleidleisio arno.

(c) Os nad yw gwelliant yn cael ei dderbyn, gellir cynnig gwelliannau eraill i'r cynnig gwreiddiol.

(d) Os yw gwelliant yn cael ei dderbyn, mae'r cynnig fel y cafodd ei wella yn disodli'r cynnig gwreiddiol. Daw hwn wedyn yn gynnig gwreiddiol y cynigir unrhyw welliannau pellach iddo.

(e) Ar ôl i welliant gael ei dderbyn, bydd y Cadeirydd yn darllen y cynnig wedi ei wella cyn derbyn unrhyw welliannau pellach, neu os nad oes rhai, yn ei roi i bleidlais.

**14.7 NEWID CYNNIG**

(a) Gall aelod newid cynnig y mae ef/hi wedi ei roi gerbron heb rybudd gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei arwyddo heb drafodaeth.

(b) Dim ond newidiadau y gellid eu gwneud fel gwelliant y gellir eu gwneud.

**14.8 TYNNU CYNNIG YN ÔL**

Gall aelod dynnu cynnig y mae ef/hi wedi ei roi gerbron yn ôl gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei arwyddo heb drafodaeth. Ni all unrhyw aelod siarad ar y cynnig ar ôl i'r cynigydd ofyn am ganiatâd i'w dynnu'n ôl, oni bai fod caniatâd yn cael ei wrthod.

**14.9 HAWL I YMATEB**

(a) Mae gan gynigydd cynnig hawl i ymateb ar ddiwedd y ddadl ar y cynnig, yn union cyn iddo gael ei roi i'r bleidlais. Yr amser a ganiateir ar gyfer ymateb yw dim mwy na 3 munud.

(b) Os cynigir gwelliant, mae gan gynigydd y cynnig gwreiddiol hawl i ymateb ar ddiwedd y ddadl ar y gwelliant, ond ni all siarad arno fel arall. Yr amser a ganiateir ar gyfer ymateb yw dim mwy na 3 munud.

(c) Nid oes gan gynigydd y gwelliant unrhyw hawl i ymateb i’r ddadl ar ei welliant ef neu hi ei hun.

## 14.10 CYNIGION Y GELLIR EU RHOI GERBRON YN YSTOD DADL

Pan fo cynnig yn cael ei ddadlau, ni ellir rhoi unrhyw gynnig arall gerbron ac eithrio’r cynigion gweithdrefnol canlynol:-

(a) tynnu cynnig yn ôl;
(b) diwygio cynnig;
(c) symud ymlaen i'r busnes nesaf;
(d) fod y cwestiwn yn awr yn cael ei gyflwyno;
(e) gohirio dadl;
(f) gohirio cyfarfod;
(g) fod y cyfarfod yn parhau y tu hwnt i 3 awr o hyd;
(h) gwahardd y cyhoedd a’r wasg yn unol â’r Rheolau Mynediad at Wybodaeth; a
(i) peidio â gwrando mwy ar aelod a enwir o dan Reol 20.3 neu ei wahardd o’r cyfarfod o dan Reol 20.4.

## 14.11 CYNIGION CAU

(a) Gall aelod gynnig, heb roi sylwadau, y cynigion canlynol ar ddiwedd araith aelod arall:-
  (i) symud ymlaen i’r busnes nesaf;
  (ii) bod y cwestiwn yn awr yn cael ei roi gerbron;
  (iii) gohirio dadl; neu
  (iv) gohirio cyfarfod.
(b) Os yw cynnig i symud ymlaen i’r busnes nesaf yn cael ei eilio a bod y Cadeirydd yn meddwl bod yr eitem wedi ei thrafod yn ddigonol, bydd ef neu hi yn rhoi hawl i ymateb i gynigydd y cynnig gwreiddiol ac yna’n rhoi’r cynnig gweithdrefnol i’r bleidlais.
(c) Os yw cynnig fod y cwestiwn yn awr yn cael ei gyflwyno yn cael ei eilio a bod y Cadeirydd yn meddwl bod yr eitem wedi ei thrafod yn ddigonol, bydd ef/hi yn rhoi’r cynnig gweithdrefnol i’r bleidlais. Os caiff ei dderbyn bydd ef/hi yn rhoi hawl i ateb i gynigydd y cynnig gwreiddiol cyn rhoi ei gynnig ef/hi ei hun i’r bleidlais.

(d) Os yw cynnig i ohirio’r ddadl neu i ohirio’r cyfarfod yn cael ei eilio a bod y Cadeirydd yn meddwl nad yw’r eitem wedi ei thrafod yn ddigonol ac na ellir ei thrafod yn rhesymol felly ar yr achlysur hwnnw, bydd ef/hi yn rhoi’r cynnig gweithdrefnol i’r bleidlais heb roi hawl i ymateb i gynigydd y cynnig gwreiddiol.

## 14.12 PWYNT O DREFN

Gall aelod godi pwynt o drefn unrhyw bryd. Bydd y Cadeirydd yn gwrando ar y pwynt o drefn ar unwaith. Gall pwynt o drefn ymwneud â honiad o dorri’r Rheolau Gweithdrefn hyn o eiddo'r Cyngor neu’r gyfraith yn unig. Rhaid i’r aelod nodi’r rheol neu’r ddeddf a’r modd y mae ef/hi yn ystyried y mae wedi ei thorri. Bydd penderfyniad y Cadeirydd ar y mater yn derfynol.

### 14.13 <u>ESBONIAD PERSONOL</u>

Gall aelod roi esboniad personol unrhyw bryd. Rhaid i esboniad personol ymwneud yn unig â rhyw ran berthnasol o araith gynharach gan yr aelod a all ymddangos fel pe bai wedi ei chamddeall yn y ddadl bresennol. Bydd penderfyniad y Cadeirydd ynghylch derbynioldeb esboniad personol yn derfynol.

### 14.14 DADL YN YSTOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Ni ddylai cynghorwyr gymryd rhan mewn trafodaeth ar gynnig yn ystod y cyfarfod oni bai eu bod wedi bod yn bresennol i glywed y ddadl gyfan, gan gynnwys cyflwyniad y swyddogion i'r mater ac unrhyw ymweliad a gynhaliwyd i'r safle. Os yw cais wedi'i ohirio yn y gorffennol, yna gofynnir i'r un Cynghorwyr ailystyried y cais pan fydd yn dychwelyd i'r Pwyllgor.

## RHGC 15 – PENDERFYNIADAU A CHYNIGION BLAENOROL

### 15.1 <u>CYNNIG I DDIDDYMU PENDERFYNIAD BLAENOROL</u>

Ni all cynnig neu welliant i ddiddymu penderfyniad a wnaed mewn cyfarfod o’r Cyngor o fewn y chwe mis diwethaf gael ei roi gerbron onid argymhellir hynny gan y Cabinet neu bwyllgor neu bod rhybudd wedi’i roi yn unol â Rheol Gweithdrefn 12 ar Gynigion y rhoddir Rhybudd yn eu cylch gan y nifer o aelodau a fyddai’n creu cworwm o’r Cyngor.

### 15.2 <u>CYNNIG SY’N DEBYG I UN A WRTHODWYD YN FLAENOROL</u>

Ni all cynnig neu welliant tebyg i un a gafodd ei wrthod mewn cyfarfod o’r cyngor yn y chwe mis diwethaf gael ei roi gerbron oni bai fod rhybudd o gynnig neu welliant yn cael ei arwyddo gan o leiaf y nifer o aelodau a fyddai’n creu cworwm o’r Cyngor. Cyn gynted ag y bo’r cynnig neu’r gwelliant wedi derbyn sylw, ni all unrhyw un gynnig cynnig na gwelliant tebyg am chwe mis.

## RHGC 16 – PLEIDLEISIO

### 16.1 <u>MWYAFRIF</u>

Oni bai fod y rheolau hyn yn darparu fel arall, bydd unrhyw fater yn cael ei benderfynu drwy fwyafrif syml o’r aelodau hynny sy’n pleidleisio ac yn bresennol yn yr ystafell gyfarfod ar yr adeg y cyflwynwyd y cwestiwn.

16.2 Mae gan aelodau’r weithrediaeth sy’n rhannu’r un swyddfa (rhannu swydd) un bleidlais rhyngddynt o ran unrhyw fater y mae ganddynt yr hawl i bleidleisio arno oherwydd eu bod yn aelod o’r weithrediaeth). Bydd rheoliadau ar wahân ar gyfer swyddfeydd anweithredol.

### 16.3 <u>PLEIDLAIS FWRW’R CADEIRYDD</u>

Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd unrhyw gyfyngiad ar sut bydd y Cadeirydd yn dewis ymarfer pleidlais fwrw.

### 16.4 DANGOS DWYLO

Oni bai y gofynnir am bleidlais a gofnodwyd o dan Reol 16.4, bydd y Cadeirydd yn cymryd y bleidlais drwy ddangos dwylo; neu os nad oes unrhyw wrthwynebiad, drwy gadarnhad y cyfarfod.

### 16.5 PLEIDLAIS A GOFNODWYD

Os hawlia 10 o aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod hynny, bydd yr enwau o blaid ac yn erbyn y cynnig neu'r gwelliant neu sy'n atal eu pleidlais, yn cael eu nodi'n ysgrifenedig a'u cofnodi yn y cofnodion (ond dim ond mewn perthynas â chyfarfodydd y Cyngor).

### 16.6 HAWL I'W GWNEUD YN OFYNNOL I BLEIDLAIS UNIGOL GAEL EI CHOFNODI

Lle bo unrhyw aelod yn gofyn am hynny yn union ar ôl cymryd y bleidlais, cofnodir eu pleidlais felly yn y cofnodion i ddangos a wnaethant bleidleisio o blaid neu yn erbyn y cynnig, neu a wnaethant atal eu pleidlais.

### 16.7 PLEIDLEISIO AR BENODI AELODAU ETHOLEDIG I SWYDDI I'W LLENWI GAN YR AWDURDOD

Pan fydd angen bwrw pleidlais ar gynnig i benodi neu ethol aelod o'r Cyngor i swydd sydd i'w llenwi gan yr awdurdod a bod dau aelod neu fwy wedi'u henwebu ar gyfer y swydd honno, rhoddir enwau'r rhai a enwebwyd gerbron y cyfarfod yn nhrefn yr wyddor yn ôl eu cyfenwau. Un bleidlais yn unig fydd gan y rhai sydd â'r hawl i bleidleisio. Os na cheir mwyafrif yn pleidleisio o blaid un person, dilëir enw'r person sydd â'r nifer leiaf o bleidleisiau oddi ar y rhestr a chymerir pleidlais newydd ac felly ymlaen tan y ceir mwyafrif o bleidleisiau o blaid un person.

### 16.8 PLEIDLEISIO AR BENODI STAFF

Pan fydd angen bwrw pleidlais ar gynnig i benodi person i unrhyw swydd gyflogedig o dan yr awdurdod, bydd y bleidlais yn bleidlais gudd ac os bydd dau ymgeisydd neu fwy am y swydd, rhoddir eu henwau gerbron y cyfarfod yn nhrefn yr wyddor yn ôl eu cyfenwau. Un bleidlais yn unig fydd gan y rhai sydd â'r hawl i bleidleisio. Os na cheir mwyafrif yn pleidleisio o blaid un person, dilëir enw'r person sydd â'r nifer leiaf o bleidleisiau oddi ar y rhestr a chymerir pleidlais newydd ac felly ymlaen tan y ceir mwyafrif o bleidleisiau o blaid un person.

## RHGC 17 – COFNODION

**17.1 <u>LLOFNODI'R COFNODION</u>**

Bydd y Cadeirydd yn llofnodi cofnodion y gweithgareddau yn y cyfarfod priodol nesaf. Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylai cofnodion y cyfarfod blaenorol gael eu llofnodi fel cofnod cywir. Yr unig agwedd ar y cofnodion y gellir ei thrafod yw eu cywirdeb.

**17.2** Mewn perthynas ag unrhyw gyfarfod, lle bo'r cyfarfod nesaf at ddibenion llofnodi'r cofnodion yn gyfarfod a elwir o dan baragraff 3, atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (Cyfarfod Arbennig), yna trinnir y cyfarfod canlynol nesaf (sy'n gyfarfod a elwir ac eithrio o dan y paragraff hwnnw) fel cyfarfod addas i bwrpas paragraff 41(1) a (2) o atodlen 12 sy'n ymwneud â llofnodi cofnodion.

**17.3 <u>FFURF COFNODION</u>**

**17.3.1** Bydd cofnodion penderfyniadau gweithredol a chofnodion y Cyngor a chyfarfodydd pwyllgorau yn cofnodi'r canlynol fel y bo'n briodol:-

(a) y penderfyniad a wnaed;
(b) y dyddiad y gwnaed y penderfyniad;
(c) y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;
(d) unrhyw fudd personol a ddatganwyd;
(e) unrhyw ganiatâd i siarad a roddwyd gan bwyllgor safonau yr Awdurdod;
(f) unrhyw ymgynghori a wnaed cyn dod i benderfyniad, ac os na wnaed y cyfryw ymgynghori, y rheswm am hynny.

**17.3.2** Yn ogystal bydd cofnodion y Cyngor a'r cyfarfodydd pwyllgorau yn gymesur â'r materion dan drafodaeth. Byddant yn cynnwys cofnod rhesymol deg ac ystyrlon o'r gweithrediadau. Lle bo sylwedd y mater yn teilyngu hynny, byddant yn cynnwys yn y rhagarweiniad i bob cofnod grynodeb byr o'r mater dan drafodaeth a'r prif bwyntiau a wnaed yn ystod unrhyw ddadl, heb briodoli sylwadau neu farn i unrhyw aelod yn ôl enw.

**17.3.3** Lle bo rhannau o'r cofnodion yn eithriedig oherwydd eu bod yn cyfeirio at wybodaeth eithriedig ac nad yw'r cofnodion sydd ar gael yn rhoi cofnod rhesymol deg ac ystyrlon, darperir crynodeb ysgrifenedig fydd yn darparu'r cyfryw gofnod heb ddadlennu'r wybodaeth eithriedig.

**17.3.4** Bydd cofnodion yn cynnwys yr holl gynigion a gwelliannau yn yr union ffurf a threfn y rhoddwyd hwy gerbron gan y Cadeirydd.

## RHGC 18 – COFNOD PRESENOLDEB

Rhaid i'r holl aelodau sy'n bresennol yn ystod cyfarfod cyfan neu ran o gyfarfod, os yw'n bresennol yn gorfforol, lofnodi'r taflenni presenoldeb cyn diwedd pob cyfarfod, i gynorthwyo gyda'r cofnod presenoldeb.

Bydd cofnod o bresenoldeb yn cael ei gadw gan y Gwasanaethau Democrataidd.

## RHGC 19 – GWAHARDD Y CYHOEDD

Ni all aelodau'r cyhoedd a'r wasg gael eu gwahardd ac eithrio naill ai yn unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn neu Reol 21 (Aflonyddwch gan y Cyhoedd).

## RHGC 20 – YMARWEDDIAD AELODAU

**20.1 <u>SEFYLL I SIARAD (PAN YN GORFFOROL BRESENNOL MEWN CYFARFOD)</u>**

Pan fo aelod yn siarad mewn Cyngor llawn rhaid iddo ef/hi sefyll, oni bai ei fod yn anabl i wneud hynny, neu yn  fynychu o bell,, ac annerch y cyfarfod drwy'r Cadeirydd. Os bydd mwy nag un aelod yn sefyll, bydd y Cadeirydd yn gofyn i un siarad a rhaid i'r lleill eistedd. Rhaid i aelodau eraill barhau ar eu heistedd tra bo aelod yn siarad oni bai eu bod yn dymuno gwneud pwynt o drefn neu bwynt o esboniad personol.

Ni fydd yn rhaid i aelodau sy'n mynychu o bell sefyll.

**20.2 <u>CADEIRYDD YN SEFYLL</u>**

Pan fo'r Cadeirydd yn sefyll yn ystod dadl, rhaid i unrhyw aelod sy'n siarad ar y pryd beidio, ac eistedd i lawr. Rhaid i'r cyfarfod fod yn ddistaw.

Mewn cyfarfodydd rhithwir, os bydd y Cadeirydd yn mynnu hynny, bydd yr aelodau i gyd yn cael eu gwneud yn fud.

**20.3 <u>AELOD I BEIDIO Â CHAEL EI GLYWED YMHELLACH</u>**

Os yw aelod yn anwybyddu dyfarniad y Cadeirydd yn barhaus drwy ymddwyn yn amhriodol neu yn dramgwyddus neu yn rhwystro busnes yn fwriadol, gall y Cadeirydd gynnig nad yw'r aelod i gael ei glywed ymhellach. Os eilir hyn, pleidleisir ar y cynnig heb drafodaeth.

**20.4 <u>AELOD I ADAEL Y CYFARFOD</u>**

Os yw'r aelod yn parhau i ymddwyn yn amhriodol ar ôl i gynnig gael ei dderbyn o dan RhGC 20.3 uchod, gall y Cadeirydd gynnig naill ai bod yr aelod yn gadael y

cyfarfod neu fod y cyfarfod yn cael ei ohirio am gyfnod penodol neu fod yr aelod yn cael ei symud yn rhithwir. Os eilir hyn, pleidleisir ar y cynnig heb drafodaeth.

### 20.5 AFLONYDDWCH CYFFREDINOL

Os oes aflonyddwch cyffredinol sy’n gwneud busnes trefnus yn amhosibl, gall y Cadeirydd ohirio’r cyfarfod am ba hyd bynnag y bydd ef/hi yn barnu sy’n angenrheidiol.

## RHGC 21 – AFLONYDDWCH GAN Y CYHOEDD

### 21.1 SYMUD AELOD O’R CYHOEDD

Os yw aelod o’r cyhoedd yn torri ar draws y gweithgareddau, bydd y Cadeirydd yn rhybuddio’r sawl dan sylw. Os byddant yn parhau i dorri ar draws, bydd y Cadeirydd yn gorchymyn iddynt gael eu symud o ystafell y cyfarfod. Gall y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod am gyhyd ag y bydd ef/hi yn barnu sy'n angenrheidiol.

### 21.2 CLIRIO RHAN O GYFARFOD

Os oes aflonyddwch cyffredinol mewn unrhyw ran o ystafell y cyfarfod sy’n agored i’r cyhoedd, gall y Cadeirydd alw am i’r rhan honno gael ei chlirio. Gall y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod am gyhyd ag y bydd ef/hi yn barnu sy'n angenrheidiol.

## RHGC 22 – FFILMIO YN YSTOD CYFARFODYDD

Heblaw yn ystod rhannau o'r cyfarfod pryd y gwaherddir y cyhoedd o dan RhGC 19 uchod, caniateir ffilmio a chofnodi ar yr amod na aflonyddir o gwbl ar weithrediad y cyfarfod.

## RHGC23 - ATAL A DIWYGIO RHEOLAU GWEITHDREFN Y CYNGOR

### 23.1 ATALIAD

Gellir atal yr holl Reolau Gweithdrefn hyn o eiddo'r Cyngor ac eithrio Rheol 16.6 ac 17.2 drwy gynnig gyda rhybudd neu heb rybudd os oes o leiaf hanner cyfanswm aelodau’r Cyngor neu Bwyllgor yn bresennol. Ni all yr ataliad fod am gyfnod hwy na hyd y cyfarfod.

Ni ellir atal aelodaeth y Pwyllgor Cynllunio fel y nodir yn RHGC 4(9), 4(10 ac 8 gan fod rhaid iddynt gydymffurfio â Rheoliadau Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Cynllunio Awdurdod Lleol (Cymru) 2017 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru)(Diwygio) 2017.

### 23.2 GWELLIANT

Bydd unrhyw gynnig i ychwanegu at, amrywio neu ddiddymu’r Rheolau Gweithdrefn hyn o eiddo'r Cyngor, pan fyddant wedi eu cynnig a’u heilio, yn cael ei ohirio heb drafodaeth i gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

## RHGC 24 – CYMHWYSO’R RHEOLAU I BWYLLGORAU

Mae holl Reolau Gweithdrefn y Cyngor yn berthnasol i gyfarfodydd y Cyngor llawn. Nid oes unrhyw rai o’r rheolau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd y Cabinet heblaw RhGC 14 (a-c) a RhGC 22. Dim ond Rheolau 4-9, 11-14, 16-18 (ond nid rheol 16.4), 19-23 (ond nid Rheolau 20.1, na 22 (heblaw cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio)) sy’n berthnasol i gyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau y Pwyllgor Trwyddedu (ond nid rheol 14.14)